LGBC5M/2000

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DDYDD MAWRTH 5ED MEHEFIN 2000 AM 10.30 YN NHÞ CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Y Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr R Knight (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S R Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr

1. Cofnodion Cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 18fed Ebrill 2000.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Materion sy'n codi

2.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Mr Peter Law gan ofyn am gyfarfod â'r Comisiwn i drafod y sefyllfa gyfredol mewn cysylltiad â'r Comisiwn Etholiadol.

2.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Gynghorau Sir Benfro a Chaerfyrddin gan ofyn am fanylion ynglŷn â'r bwriad i gyflwyno gwasanaethau i Glunderwen. Ni chafwyd ateb gan y naill Gyngor na'r llall hyd yn hyn.

2.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cyfarfod â Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg mewn perthynas â dechrau arolwg pellach o drefniadau etholiadol y Comisiwn. Roedd y Cadeirydd o'r farn ei fod yn bwysig cofnodi'r ffaith mai'r amser a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ynglŷn â'r arolwg pellach ar ôl cwblhau'r prif arolwg etholiadol oedd y rheswm am yr oedi o ddwy flynedd a fu rhwng yr arolwg etholiadol ac arolwg etholiadol pellach y Fro.

2.4 Dywedodd yr Ysgrifennydd y cyfyngwyd y dewis o leoliadau ar gyfer cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Comisiwn i ddau le, sef yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd neu Athrofa Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Soffia. O'r ddau ddewis, ffafriwyd yr Eglwys Norwyaidd fel lleoliad. Fodd bynnag, ni wyddent a oedd digon o lefydd parcio ar gael o gwmpas yr Eglwys Norwyaidd ac nid oedd sicrwydd chwaith y byddai ansawdd y golau yn addas ar gyfer defnyddio taflunydd i gyflwyno sleidiau. **Cytunwyd** i drefnu cael ystafell yn yr Eglwys Norwyaidd pe bai digon o lefydd parcio ar gael a'r golau'n addas i ddefnyddio taflunydd. Pe byddai'r Eglwys Norwyaidd yn anaddas at y diben, yna byddai'n rhaid holi i weld a fyddai Athrofa Chwaraeon Cymru ar gael. **Cytunwyd** y byddai dyddiad y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar 21 Medi 2000.

3. **Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yn ardal Heol Pontardawe – ystyried y Cynigion Terfynol.**

3.1 Ystyriwyd y Cynigion Terfynol drafft a nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dweud nad oedd am wneud unrhyw gynrychioliadau pellach mewn perthynas ag arolwg y Comisiwn o'r ffin. **Cytunwyd** i dderbyn adroddiad y Cynigion Terfynol.

4. Cais i gynnal arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Tor-faen a Chasnewydd – Brooklands Farm, Llantarnam.

4.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cyfarfod â Mr. Alistair Jones a'i ymgynghorydd cynllunio ar 1 Mehefin 2000 i drafod y rhesymau oedd wrth wraidd eu cais i gynnal arolwg o'r ffin rhwng Tor-faen a Chasnewydd sy'n rhannu'r tir sy'n eiddo i gleient Mr Jones yn Brooklands Farm yn Llantarnam. Cyfeiriwyd at lythyr yn rhoi manylion am y prif bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod. Roedd Mr Jones wedi dweud fod ei gleient am i'w holl dir gael ei leoli o fewn un awdurdod lleol, sef Casnewydd o ddewis. Byddai hyn yn golygu newid y ffin bresennol er mwyn trosglwyddo y rhan o'i dir sydd ar hyn o bryd yn Nhor-faen i Gasnewydd. Dywedodd Mr Jones y byddai newid o'r fath er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus gan y byddai modd felly i'w gleient ddelio ag un awdurdod lleol mewn perthynas â'r tir.

4.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu'n anffurfiol at Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Thor-faen yn gofyn am eu barn mewn perthynas â chynnal arolwg o'r ffin yn yr ardal honno. Ymatebodd Casnewydd drwy ddweud nad oeddent yn gweld unrhyw fantais o newid y ffin tra roedd Tor-faen o'r farn y byddai adlinio'r ffin i ddilyn y ffordd yn achosi problemau o ran cynnal a chadw ochrau'r ffordd.

4.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu'n anffurfiol at Gynghorau Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Thor-faen i'w hysbysu bod y Comisiwn yn ystyried cynnal arolwg o'r ffin yn Brooklands Farm ac i ofyn am eu barn ar y mater. Byddai atebion y Cynghorau, pe byddent ar gael, yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Comisiwn ym mis Awst. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiynwyr ymweld â'r safle yn yr ardal yn ystod y cyfarfod ym mis Awst.

5. Cynnig gan Blaid Rhyddfrydol Cymru i gynnal arolwg o ran o'r Ffin rhwng Sir Gaerfyrddin, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yng Nghwm Aman Uchaf.

5.1 Cyfeiriodd Mr Halsall sylw'r Comisiwn at y llythyr a dderbyniwyd gan Mr Rif Winfield, Cadeirydd Plaid Rhyddfrydol Cymru, a oedd yn gofyn am gynnal arolwg o'r ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn ardal Cwm Aman Uchaf. Derbyniwyd llythyr hefyd gan Gyngor Sir Powys yn hysbysu'r Comisiwn bod yr awdurdod yn edrych ar eu ffin yn ardal Cwm-twrch yng Nghwm Aman Uchaf.

5.2 Roedd y Cadeirydd o'r farn y byddai'n briodol ysgrifennu at y Cynghorau dan sylw i ofyn am eu barn ar y mater gan fod y Comisiwn wedi derbyn cais am arolwg o'r ffiniau yn yr ardal hon. Dywedodd Mr Halsall ei fod wedi cael caniatâd Mr Winfield i anfon copïau o'i lythyr i unrhyw awdurdod perthnasol.

5.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gynghorau Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phowys yn gofyn am eu barn ar y posibilrwydd o gynnal arolwg gan amgáu copi o lythyr Mr Winfield.

6. Adroddiad Blynyddol Drafft 1999/2000

6.3 Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Drafft 1999/00 gan y Comisiwn. Y farn oedd y dylid cyfeirio at Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn yn y cyflwyniad ac y dylid crybwyll gweithdrefn gwyno ffurfiol y Comisiwn. Felly, **cytunwyd** y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei ddiwygio.

7. Cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd – Uchafswm Dyfarniad Tâl Cyfunol 2000: Ilythyr gan y Cynulliad Cenedlaethol (sesiwn gudd).

7.1 **Cytunwyd i** ddyfarnu tâl cyfunol o 2.9% ac anghyfunol o 3.1% o 1 Ebrill 2000.

8. Côd Ymarfer ar Fynediad y Cyhoedd i Wybodaeth: Ilythyr gan y Prif Ysgrifennydd ynghyd ag atodiadau.

8.1 Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd sylw'r Comisiwn at lythyr a dderbyniwyd gan Brif Ysgrifennydd y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r Côd Ymarfer ar Fynediad y Cyhoedd i wybodaeth. Y farn oedd y dylid cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn ar wefan y Comisiwn i ddangos eu hymrwymiad i egwyddor llywodraeth agored.

8.2 Y farn oedd na ddylai agendâu na phapurau cyfarfodydd y Comiwn fod ar gael gan y byddai hyn yn gosod baich gwaith anghyfartal ar staff y Comisiwn ac y byddai iddo oblygiadau o ran casglu adnoddau.

8.3 **Cytunwyd** mai dim ond ar ôl cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd y byddent yn cael eu rhoi ar y wefan. Byddai hyn yn golygu oedi o ryw fis rhwng dyddiad y cyfarfod a chyhoeddi cofnodion y cyfarfod ar wefan y Comisiwn.

8.4 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn drafftio ateb i lythyr y Prif Ysgrifennydd ac yn anfon copïau i'r Comisiynwyr en cymeradwyo.

9. Adroddiad Ariannol – Gwariant Diwedd y Flwyddyn 1999/00.

9.1 Dywedodd Mr Carr fod gwariant y Comisiwn wedi bod ymhell o fewn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 1999/00, gan ddangos tanwariant o £27,364 at ei gilydd. Roedd hyn yn ychwanegol at y £125,000 a ildiwyd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol.

10. Unrhyw Fusnes Arall.

10.1 Dywedodd Mr Halsall mai dim ond am un flwyddyn yr estynnwyd contract cartographydd y Comisiwn, sef Mr Phil Hall, y llynedd oherwydd yr ansicrwydd a ddeilliodd o'r Arolwg Polisi a ohiriwyd. Roedd yn fwyfwy amlwg bod y gwaith cartographi yr oedd ei angen ar y Comisiwn yn lleihau a bod modd cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith mapio, er nad y cyfan, drwy ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai Mr. Hall yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r ffaith na chân ei gontract ei adnewyddu o fis Medi 2000.

10.2 Dylid archwilio goblygiadau deddfwriaeth lawnderau Dynol o ran gwaith y Comisiwn.

10.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi'i wahodd i fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Comisiwn Lloegr ar 4ydd Gorffennaf 2000. **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifennydd fod yn bresennol yno.

10.4 Dywedodd yr Ysgrifennydd y cafodd wybod gan Mr Frank Cuthbert o Isadran 2 y Comisiwn Ffiniau Lleol y byddai Arolwg Polisi'r Comisiwn gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dechrau ym mis Gorffennaf ac yn parhau tan fis Awst 2000. Dywedodd y Cadeirydd na fyddai ar gael yn ystod mis Gorffennaf. Roedd pob aelod o'r Comisiwn ar gael ym mis Awst. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i Mr Cuthbert pryd y byddai'r Comisiwn ar gael.